Partneriaeth Gyswllt Niwbwrch

Crynodebau o'r Cyfarfodau Mis Tachwedd

i'w ddefnyddio gan y grŵp Ymwneud y Gymuned a Phartneriaethau a chan holl aelodau'r Bartneriaeth Gyswllt i roi'r newyddion diweddaraf i'r rheiny y maent hwy'n eu cynrychioli

Crynodeb o ganlyniadau'r cyfarfod Cyswllt Partneriaeth Niwbwrch - 23 Tachwedd 2005

Cafwyd adroddiad gan bob grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cynnydd a wnaed ac mae gwaith pob un yn cadw at yr amserlen. Bydd rhestr o'r dewisiadau sy'n cael eu datblygu yn cael ei llunio a'i dosbarthu'n fewnol. Cytunwyd ar y camau nesaf ar gyfer pob grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Mae'r Bartneriaeth Gyswllt yn awyddus i annog y gymuned i gymryd rhan mor lawn â phosibl yn y prosiect. O hyn ymlaen, bydd y grŵp Partneriaethau ac Ymwneud y Gymuned yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg bob mis ar y cynnydd a wnaed, wedi'u seilio ar ddiweddariadau'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen, ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar yr hysbysfwrdd bob mis. Mae newyddlen yn cael ei hystyried. Dylid diweddaru'r wefan yn gyson. Cynllunnir cyfarfodydd ymhell ymlaen llaw er mwyn rhoi digon o rybudd.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Bartneriaeth Gyswllt ar Ddydd Mercher 1 Chwefror a bydd bwyd a diod ar gael!

Cysylltiad: Robert Williams, robert.williams@forestry.gsi.gov.uk, 07775818958

Crynodeb o ganlyniadau'r cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynefinoedd a Rhywogaethau – 30 Tachwedd 2005

Mewn ymateb i gais gan y grŵp ymwneud y gymuned a phartneriaethau, hoffem wahodd y grŵp addysg i ddefnyddio ein harbenigedd wrth drefnu'r teithiau cerdded arfaethedig yn y goedwig a'r tywyn. Hoffem i'r teithiau hyn fod yn agored i'r gymuned gyfan ac i bawb gael gwybod amdanynt.

Mae'r grŵp yn credu y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar yr ardal yn ystod y 100 mlynedd nesaf ac wedyn (newidiadau yn lefel y môr, glawiad, tymheredd, amlder stormydd), a dylid cymryd y newid tebygol i ystyriaeth wrth ddadansoddi'r dewisiadau. Mae John Tripp wedi llunio papur ar newid yn yr hinsawdd.

Mae'r grŵp o'r farn ei fod wedi nodi'r amrywiaeth lawn o ddewisiadau posibl ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yng Nghoedwig a Thywyn Niwbwrch. Rydym bellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl ddewisiadau hyn yn adlewyrchu ein diddordebau, safbwyntiau ac arbenigedd unigol.

Rydym wedi penderfynu peidio â chynnal cyfarfod ym mis Rhagfyr er mwyn canolbwyntio ar gwblhau'r gwaith ar y dewisiadau erbyn cyfarfod mis Ionawr. Yn y cyfarfod hwnnw byddwn yn rhoi sylw i resymoli'r dewisiadau, penderfynu ar y rhai mwyaf ymarferol, ac ymhelaethu arnynt.

Ar ôl lleihau'r nifer o ddewisiadau, rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn Coedwigaeth ddefnyddio meddalwedd delweddu i helpu penderfynu pa rai y gellir bwrw ymlaen â hwy.

Crynodeb o ganlyniadau'r cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymwneud y Gymuned a Phartneriaethau – 10 Tachwedd 2005

- *Aethpwyd drwy'r awgrymiadau a ddaeth o gyfarfod diwethaf y Bartneriaeth Gyswllt (3/10/05) ar sut i wella cyfathrebiadau yn fewnol a chyda'r gymuned ehangach.*

- Rydym yn gofyn i grwpiau eraill gynhyrchu adroddiadau cryno ar eu cyfarfodydd (ar ffurf datganiad byr – 4 pwynt bwled ar y mwyaf), y byddwn yn eu casglu ynghyd i ffurfio un crynodeb i'w ddosbarthu.

- Rhoddir hwn ar yr hysbysfwrdd; gofynnir i swyddog y wasg y Comisiwn Coedwigaeth ystyried sut y gellir ei ddosbarthu'n ehangach drwy'r cyfryngau lleol; hefyd fe'i hanfonir at ddeiliaid portffolio'r Cyngor Sir.

- Bydd y mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith cyn y Nadolig, yng nghyfarfodydd nesaf yr holl grwpiau (os cytunir ar hyn yng nghyfarfod y Bartneriaeth Gyswllt).

Crynodeb o ganlyniadau'r cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg – 29 Tachwedd 2005

Mae gan y Grŵp Addysg dri aelod newydd:
Elfyn Roberts o Fenter Môn
Eli Lichtenstein o BTCV
Dominic Insham, Warden Coed Cwr-y-Pwll

Esboniwyd y Fframwaith Datblygu Cymunedol gan Elfyn a siaradodd am y dewisiadau cyllido.

Crynhodd Neil Johnson yr astudiaeth dichonoldeb o'r ganolfan ymwelwyr. Gan fod yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Dyluniad Coedwig wedi peri oedi, credai y gallai fod yn rhy hwyr i wneud cais am arian Ewropeaidd pe bai teimlad cryf dros adeiladu'r ganolfan. Roedd o'r farn bod y ffigurau ymwelwyr a ddarparwyd gan CC Cymru yn annibynadwy.

Cyflwynodd Anne ei syniadau am raglen o ddigwyddiadau ar gyfer y flwyddyn gyfan. Roedd y grŵp yn gwerthfawrogi ei gwaith a bydd yn adeiladu arno. Drwy Kath, bydd y grŵp yn gofyn i aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen Cynefinoedd a Rhywogaethau a fyddent yn fodlon gwirfoddoli i arwain teithiau cerdded yn y goedwig / tywyn.

Penderfynodd y grŵp ar ddau ddyddiad ar gyfer cyfarfodydd yn y flwyddyn newydd. Gobeithir y bydd ceidwad addysg newydd CC Cymru yn ei swydd erbyn hynny.

Newyddion mis Tachwedd o Goedwig a Chwningar Niwbwrch

Cadarnhaodd cyfarfod Partneriaeth Gyswllt Niwbwrch ym mis Tachwedd fod pob Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gwneud cynnydd ac yn cadw at yr amserlen y cytunwyd arni yn y cyfarfodydd cychwynnol.

Cynigiodd aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynefinoedd a Rhywogaethau, sy'n cynnwys arbenigwyr mewn meysydd amrywiol, i arwain teithiau cerdded wrth ymateb i ffurflen gais gan Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Cyfranogiad Addysg a Chymuned a Phartneriaeth. Bydd y teithiau cerdded yn archwilio amrywiaeth o nodweddion arbennig y gwningar ac ardal y goedwig. Bydd croeso i holl aelodau'r gymuned. Cyhoeddir rhestr o ddigwyddiadau cyn bo hir.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynefinoedd a Rhywogaethau yn archwilio'r ystod eang o ddewisiadau i'w hystyried ar gyfer rheoli ardal y goedwig a'r gwningar yn y dyfodol. Credir bod angen ystyried effaith debygol newid hinsawdd yn y tymor hir, yn enwedig y newid yn lefel y môr a stormydd cynyddol.

Bydd y dewisiadau hyn yn bwydo i'r ymgynghoriadau cyhoeddus yn 2006, gan weithio tuag at gynhyrchu cynllun dylunio coedwig. Bydd darlunio yn un o'r technegau a ddefnyddir i helpu egluro cynlluniau posibl.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg yn gweithio ar syniadau ar gyfer rhaglen ddigwyddiadau, sy'n addas ar gyfer ystod eang o oed a grwpiau diddordeb. Mae'n dechrau archwilio cyfleoedd ariannu.

Bydd Swyddog Addysg newydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer ardal gogledd orllewin Cymru yn dechrau ar ei swydd o fis Ionawr a bydd yn gweithio'n agos â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg.

Croesewir syniadau pawb ac mae Partneriaeth Gyswllt Niwbwrch am annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan yn ei gweithgareddau.

Bwriad y taflenni newyddion hyn yw rhoi'r newyddion diweddaraf i chi. Edrychwch yma ac yn y wasg leol am newyddion rheolaidd.

Cynhelir cyfarfodydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Bartneriaeth Gyswllt fel a ganlyn:

11 Ionawr	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Economeg	1pm	Athrofa PJ, Niwbwrch
11 Ionawr	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynefinoedd a Rhywogaethau	7pm	Athrofa PJ, Niwbwrch
24 Ionawr	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfranogiad a Phartneriaeth Gymunedol	7pm	Athrofa PJ, Niwbwrch
1 Chwefror	Partneriaeth Gyswllt	o 6.30pm	Athrofa PJ, Niwbwrch
7 Chwefror	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg	6pm	Athrofa PJ, Niwbwrch
8 Chwefror	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynefinoedd a Rhywogaethau	7pm	Athrofa PJ, Niwbwrch
20 Chwefror	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mynediad ac Adloniant	7pm	Athrofa PJ, Niwbwrch

Os hoffech gymryd rhan neu os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â: Rob Williams (CC), e-bost: robert.williams@forestry.gsi.gov.uk, ffôn symudol: 07775818958